OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 885 (Cy.85) (C.23)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud - - 21 Mawrth 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan Adran 67(3), (7)(a), (c),(e) ac (i) ac Atodlen 5 o Ddeddf Plant 2004 (**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 2004.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y Diwrnod Penodedig

2.—(1) 31 Mawrth 2006 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod ag adran 26 o'r Ddeddf (Cynlluniau plant a phobl ifanc: Cymru) i rym.

(2) 1 Ebrill 2006 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod â darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym—

(a) Adran 28 (1)(a) i (c) ac (i), (2) (i'r graddau y bônt yn berthnasol i'r personau a chyrff y cyfeirir atynt yn isadran (1)(a) i (c) ac (i)), (3) a (4) (Trefniadau i ddiogelu a hybu lles: Cymru);

(b) Adran 44 (Maethu preifat: diwygiadau i'r cynllun hysbysu);

(c) Adran 48 ac Atodlen 4 (ac eithrio paragraff (5) o'r Atodlen honno) (Gwarchod plant a gofal dydd);

(ch) Adran 53 (Canfod dymuniadau plant);

(d) Adran 54 (Gwybodaeth am blant unigol);

(dd) Adran 55 (Pwyllgorau gwasanaethau cymdeithasol) ;

(e) Adran 61 (Comisiynydd Plant Cymru: pwerau mynediad); a

(f) Rhannau 1 (i'r graddau y mae'n berthnasol i Adran 5 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**2**)), 2 a 4 o Atodlen 5 (Diddymiadau).

(**1**) 2004 p.31.
(**2**) 2002 (p.38).

(3) 1 Medi 2006 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod â darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym—

(a) Adran 27 (Cyfrifoldeb am swyddogaethau o dan adrannau 25 a 26); a

(b) Rhan 1 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, ac eithrio'r darpariaethau sy'n berthnasol i baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989(**3**)) o Atodlen 5 (Diddymiadau).

(4) 1 Hydref 2006 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dod â darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym—

(a) Adran 30 (Archwilio swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Ddeddf);

(b) Adran 32 (Swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru);

(c) Adran 33 (Cyllido Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru);

(ch) Adran 34 (Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru: atodol);

(d) Adran 50 (Ymyrraeth);

(dd) Adran 52 (Dyletswydd awdurdodau lleol i hybu cyflawniad addysgol); a

(e) Adran 56 (Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

21 Mawrth 2006

(**3**) 1989 (p.41).
(**4**) 1998 (p. 38).